

# BATHAFARN BACH

Cylchgrawn Hanes Yr Eglwys Fethodistaidd Yng Nghymru

RHIF 10 - HAF 2019

## Nodyn Golygyddol

Er ein rhifyn diwethaf bu farw y Parchedig Ddr Owen Ellis Evans ar 31 Hydref 2018 yn 97 mlwydd oed. Roedd yn adnabyddus yn bennaf fel ysgolhaig Beiblaidd disglair ac fel Cyfarwyddwr y *Beibl Cymraeg Newydd*. Roedd hefyd yn weithgar dros y blynyddoedd gyda Chymdeithas y Cymod.

Fel un o weinidogion yr Eglwys Fethodistaidd roedd ganddo ddiddordeb mawr yn ein hanes ac roedd yn aelod ffyddlon o'r Pwyllgor Hanes. Yn 1993 golygodd *Gwarchod y Gair*, cyfrol goffa i'r gweinidog a'r hanesydd y Parchedig

Griffith Thomas Roberts (1912-91). Yn 2003 cyfrannodd i'r gyfrol Saesneg, *Methodism in Wales: a short history of the Wesley tradition*, a rhoddodd gyngor parod a doeth i mi wrth imi olygur'r gyfrol.


Yn ei flynyddoedd olaf ceisiais berswadio Owen Evans i ysgrifennu rhai o'i atgofion ar gyfer *Bathafarn Bach*. Yn anffodus, ni lwyddais ond rydym yn ddyledus iawn i Dr Robin Gwyndaf am ei ysgrif 'Portread o Gymwynaswr' a gyhoeddwyd yn y *Gwyliedydd* Ebrill-Mai 2016 ac a ail-graffwyd fel teyrnged yn *Y Traethodydd* Ionawr 2019.

## Capel Penisarwaen

### Atgofion aelod adeg dathlu 150 mlwyddiant y capel yn 1958

O dan yr enw "Waun Wineu" yr adwaenid ardal Penisarwaen yn yr hen amser – sef godre gwaun fawr oedd yn cyrraedd o Benisarwaen i ben yr Elidir. Ychydig o hanes cynnar yr achos sydd ar gael. Ceir y crybwylliad cyntaf yn nhrefn y capelau a gyhoeddwyd yn yr *Eurgrawn* 1828, lle nodir bod capel wedi ei adeiladu yma yn y flwyddyn 1808. Gall hyn fod yn gywir gan fod y cenhadon cyntaf yn llafurio yma ar yr adeg honno a dyna pryd y sefydlwyd yr achos ym Mhenisarwaen.

Mor gynnar â'r flwyddyn 1858, trefnwyd i ail weinidog gartrefu ym Mhenisarwaen. Y Parch. W. Hugh Evans oedd y cyntaf. Roedd yma adeg Diwygiad 1859 a gwnaeth waith mawr yn ystod y Diwygiad hwnnw. Ar ei ôl ef daeth y Parch. W. Thomas ac yna y Parch. W. Evans, 'Monwyson'. Lletyai y tri yn eu tro gyda'r hen chwaer Siân Prys, oedd yn byw yn y Tŷ Capel fel



y mae ar hyn o bryd. Hen chwaer agos iawn at ei lle oedd Siân Prys.

Ym Mawrth 1872, gwnaed cais am ganiatâd i adeiladu capel newydd ar safle yr hen adeilad. Roedd y capel newydd i fesur 46 troedfedd 9 modfedd wrth 26 troedfedd 6 modfedd a byddai'n eistedd 167. Cafwyd rhodd o £50 tuag at y capel gan Mr Samuel Jones, Glandinorwic, nai y Parch. D. Jones, Eglwysbach. Ym mur ochr chwith y capel yr oedd y drws yn yr adeilad cyntaf. Ond pan benderfynwyd ailadeiladu, symudwyd y drws i du blaen y capel a rhoi porth i fynd i mewn. Ar stormydd mawr y gaeaf buasai yr hen ddrws yn talu yn well o lawer, gan gymaint pwysau'r storm yn curo a'r glaw yn dod i mewn.

Cofiaf am aelodau cryf iawn eu ffydd a gloyw eu gwelediad i bethau gorau bywyd. Eliza Davies a Mary Morris, Mrs Madoc Jones: colofnau cryf yr oedd yn drêth gwrando arnynt. Cofiaf yn dda fel y byddwn yn mynd i nôl Eliza Davies i ddod i'r capel ar nos Sul a noson Seiat yn y gaeaf, a gwrando arni yn mwmian canu 'Dyma

gariad fel y moroedd'. Un oedd hi na wnaeth erioed gloi drws ei thŷ, nos na dydd. Byddai yn dweud bob tro wrth gau y drws i ddod i'r capel, "Mi fydd O yma tra bydda i oddi yma". Gwyddai ei Beibl bob gair. Pregeth anfarwol oedd ei chlywed yn adrodd ei phrofiad.

Pan fyddai Cyfarfod Gweddi byddai Mrs Madoc Jones yn gweddïo yn ei sedd ar ochr dde y capel yn y gwaelod, a'r plant lond y sedd, pob un â'i ben i lawr. Eu mam â'i gafael yn dynn yn rhaffau'r addewidion a'r dagrau yn powlio. Roedd gan Griffith Owen (tad y diweddar Barch. G. John Owen) yntau lond sedd o blant. Eisteddai ef ar gongl y sedd fawr ar yr ochr chwith yn taro canu a'i ddau lygad ynghau.

Yna Evan Williams, Tŷ'n Pwll, a wisgai gap fel 'smoking cap' am ei ben pan fyddai hi'n oer, am ei fod wedi colli ei wallt. Byddai yn haws dweud adnod wrth Evan Williams na neb. Roedd ganddo ryw ffordd ddeniadol hefo plant. Cofiaf Griffith Owen yn gwrando adnodau ac yn cwyno ei fod yn mynd yn hen, ei olwg yn pallu a'i glyw yn mynd yn drwm.

Rwy'n cofio'r diweddar John Griffith Jones, pregethwr cynorthwyol o Bort Dinorwic, yn holi adnodau, ac mae'n rhaid ein bod ni fel plant dipyn yn ddiereidus y noson honno. Adnod un ohonom oedd 'O frodyr, gweddïwch trosom'. "Ie, ie," meddai J.G. Jones, "ond ambell dro mi fasa gwialen fedw llawn cystal".

Gyda theulu Robert Roberts, Tŷ'n Rardd y lletyai llawer o'n gweinidogion sengl flynyddoedd yn ôl. Bu'r Parch. J. Roger Jones yma yn weinidog, yn lletya yn y Post Office hefo Mr a Mrs Speakman. Hefo Mrs Beuno Jones ym Meillionydd y lletyai'r Parch R. Conway Pritchard, a'r Parch. D.R. Rogers yng Nghae Corniog hefo Mrs Roberts. Bu'r Parch. Idwal Davies, Tywyn, yn aros yn Nhŷ'n Pwll hefo Mr a Mrs Evan Williams pan oedd yma'n weinidog ac yno hefyd y bu'r Parch. R.T. Roberts.

Roedd hen gymeriad doniol yma yn wrandawr ers talwm sef Dicw Pritchard. Roedd rhywbeth yn blentynnaidd yn Dicw ond gonest fel dur, a neb mor fawr ei barch i addoldy. Gwae i neb ddweud gair am Capel

## Y Parchedig John Williams (1814-97)

Brodor o Ogledd Cymru oedd John Williams. Ganed ef yn Braich Gwair, Llandygái, Arfon ym mis Tachwedd 1814. Roedd ef a William, ei frawd, yn efeilliaid. Yn Ebenezer, pentref wrth droed Deiniolen, y trigai William, ac roedd yn bregethwr Wesla, yn ogystal ag un yn cadw siop. Magwyd John yn Nant-y-graeon, Tregarth, ac ymunodd â'r Wesleiaid yng Nghapel Shiloh yn y lle hwnnw yn 1837. Dechreuodd bregethu tua 1841-43. Roedd yn briod ag Ellen, merch i William Jones, Fferm Chwarel Goch, Tregarth, Bethesda. Yn 1833 dechreuodd un arall o'i frodyr, sef Morris Williams, Tŷ'n y Clawdd, bregethu, un oedd yn 'rhagori mewn ffyddlondeb a duwiolfrydedd'. Bu'n flaenor yn Shiloh, Tregarth a Pheniel, Mynydd Llandygái. Teithiodd lawer i bregethu yn Siroedd Môn, Caernarfon, Dinbych a Fflint. Bu farw 2 Gorffennaf 1892

yn 80 mlwydd oed. Ymfudodd un arall o blant Braich Gwair, sef Henry Williams, i'r Unol Daleithiau.

A dyna fu hanes John Williams. Hwylodd yntau ar fwrdd y City of Glasgow am yr America ar 2 Mawrth 1854. Ar ben ei hun yr aeth yn gyntaf gan adael ei deulu yng Nghymru. Bu am ddwy flynedd yn gweithio yn y chwareli llechi yng Nghanada (Quebec efallai). Ni fu'n hir cyn i'w deulu ymuno ag ef. Dim ond ar ddau achlysur yn unig y cafodd y cyfle i bregethu yn y Gymraeg yn ystod yr amser y bu'n byw yng Nghanada.

Ar ôl hynny symudodd i Slatinton, Pennsylvania lle yr arhosodd am ddwy flynedd. Roedd yno achosion gan yr Annibynwyr, y Presbyteriaid a hefyd y Bedyddwyr Cymraeg, ond nid oedd yno ddim achos yr adeg hynny, nac ar ôl hynny ychwaith, gan y Wesla. Ond pregethai John Williams bob Sul

Wesla wrtho, a ddaeth o erioed i oedfa heb ddima i'r casgliad. "Un da am 'gethu wyt ti, was" fyddai ei eiriau wrth bob pregethwr, pwy bynnag a fo. Byddai yn canu dros y capel, yn enwedig os byddai tipyn o gynulliad neu Gyfarfod Pregethu yma. Pan fyddai Griffith Owen wedi blino ar Dicw yn canu, byddai yn ysgwyd ei ben arno a chaeai Dicw ei lyfr yn glep ac eistedd i lawr ar ganol yr emyn.

Rhoddodd y Rhyfel Cyntaf, 1914-18, ei fys ar yr Eglwys hon: collwyd pedwar o fechgyn. Mae'r Eglwys wedi pwrcau llestri Cymun unigol i gofio am y bechgyn hynny. Trefniant y diweddar Barch. R.T. Roberts oedd hyn. Roedd gwir angen llestri Cymun yma ac maent yn hardd iawn. Yn ystod cyfnod y Rhyfel Cyntaf, ymunodd y capel yma â Bozrah, capel yr Annibynwyr a bu'r Parch. Isaac Jones eu gweinidog hwy yn gofalu am y ddwy eglwys. Roeddem yn mynychu capel Bozrah bob yn ail Sul a phawb yn addoli gyda'u gilydd.

Daeth i ran y diweddar Barch. R. Jones Williams ddewis pedwar

o flaenoriaid newydd sef Hugh Thomas, Hugh Price, William Roberts a Robert Jones. Bu R. Jones yn organydd yma am flynyddoedd ac yn athro Ysgol Sul dihafal. Cafodd y pedwar blaenor waith caled i ddysgu wynebu cynulleidfa, gan nad oedd yr un ohonynt wedi arfer siarad yn gyhoeddus cyn hynny. Cyngor a roed i'r Eglwys yr amser hynny oedd gofalu fod yr ieuanc yn cael cyfle i gymryd rhan a siarad yn gyhoeddus rhag ofn iddynt fynd i'r un tramgwydd wedyn.

Cynhelid Cyfarfod Ysgol yma yn gynnar iawn, a chofiaf fel y byddem yn cael ein dewis i fynd hefo Hugh Thomas, ran amlaf i Lanberis neu Lanrug, i Gyfarfod Ysgol. Yna deuai aelodau o'r eglwysi eraill yma i gyfarfodydd cyffelyb ac i drin materion yr Ysgol Sul. Bu yma lewyrch ar Ysgol Sul ar hyd y blynyddoedd a rhif da o blant yn ei mynychu a gwobrau gorau'r Dalaith wedi dod yma fwy nag unwaith.

Miss M.E. Parry, B.A., Tŷ Gwyn, chwaer-yng-nghyfraith y Parch. D.H. Thomas, oedd y ferch gyntaf a'r unig

un i gael ei dewis yn flaenor yma, sef blaenor y plant. Gweithiodd yn galed er lles ariannol yn ogystal â phob peth gorau. Bu'n dysgu dramâu yma i ni, hi a'r Parch. D.H. Thomas, a hwyl fawr gawsom ni yn eu perfformio o fan i fan.

Bu pob bachgen o eglwysi'r Gylchdaith oedd â'i fryd ar y Weinidogaeth yma pan yn dechrau. Rwy'n cofio'r Parchn. J. Owen Jones, Haines Davies, Emrys Evans, R. Roberts, neu "Bertie" Roberts fel roeddem ni'n arfer ei alw, a llu o rai eraill. Mr Robert Hughes (Bangor rŵan) oedd yr olaf i ofalu amdanom fel eglwys. Gwas cylchdaith oedd ef ond bu raid i ni syrthio ynghyd â Llanberis a Lanrug dan y morthwyl a gwneud heb weinidog. Mae colled ar ôl bugail ar eglwys. Credaf fod mwy o angen bugeilio o lawer na phregethu. Mae pedwar blaenor yma heddiw sef Hugh Thomas, Evan Williams, William Roberts ac Emyr Thomas. Y Parch. Ifor Jones, Portdinorwic, sy'n gofalu amdanom fel gweinidog.

**MARGARET MUNRO**

yn Slate Hill, Efrog Newydd, lle roedd yr adeg hynny eglwys Wesleidd, ac ar y dyddiau eraill byddai'n dilyn ei waith dyddiol yn y chwarel. Erbyn hynny roedd ei frawd Henry a'i gefnder Henry Roberts yn rhedeg chwarel lechi yn Bangor West (Delta heddiw) ym Mhennsylvania. Roedden nhw hefyd yn bregethwyr Wesleidd, gyda Henry Roberts yn weinidog ordeiniedig gyda'r enwad.

Ordeiniwyd John Williams yn weinidog gyda'r Wesleaid gan yr Esgob Scott yn Baltimore, Maryland ar 20 Mawrth 1858. Cafodd ei ordeinio drachefn yn 1861 gan yr Esgob Matthew Simpson (1811-84), un o dras Wyddelig, yn Chambersburg, Maryland. Gwnaed hynny yn unol â threfn y Wesleaid am eu bod yn ordeinio ddwywaith cyn cydnabod un yn weinidog cyflawn.

Ymhen tair blynedd ar ôl hynny ymunodd â'r Annibynwyr gan barhau i weithio yn y chwarel ar yr un pryd. Yn Haf 1865, ychydig fisoedd ar ôl llofruddiaeth yr Arlywydd Lincoln a diwedd y Rhyfel Cartref, cafodd John Williams gystudd blin. Fe'i cymerwyd yn wael yn dioddef o'r dwymyn deiffoid, trodd ar wella ond cafodd y dropsi ar ôl hynny. Ar ôl iddo gael

adferiad bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr yn Bangor West (1856-1915) hyd 1872, ac am dymor hefyd gyda'r achosion Cymraeg yn Pittston (1847-1946), Parsons (1871-1908) a Bangor (1872-1945) ym Mhennsylvania. Bu farw 5 Chwefror 1897 yn 82 mlwydd oed a'i gladdu ym mynwent Bangor, Pennsylvania.

**W. ARVON ROBERTS**

## BATHAFARN BACH – RHIF 10 – HAF 2019

© y cyfranwyr unigol

**Cyhoeddwr:** Y Gymdeithas Hanes, Synod Cymru yr Eglwys Fethodistaidd

**Golygydd:** Dr Lionel Madden, Hafren, Cae'r Gog, Aberystwyth, SY23 1EY

**Ffôn:** 01970 617771 **ebost:** madden.aber@gmail.com

Cyhoeddir yn achlysurol i'w ddsbarthu gyda'r *Gwyllyddydd*

**Argraffwyr:** Y Lolfa



# Atgofion Dyn Cyffredin

sef atgofion y Parchedig  
William H. Hughes (1898-1971)

## Rhan 2

SONIAIS YNGHYNT AM FÔR GALILEA heb sylweddoli mai enw ydyw ar gylch o bentrefi ar lan ogleddol y llyn. Gan ei fod yr un siâp â thelyn gelwid ef hefyd yn llyn Gennesaret, sy'n enw addas iawn. Clywais fod yr ymerawdwr Tiberias wedi codi dinas yn yr ardal yma, dinas yn dwyn ei enw – Tiberias. Daeth y llyn yn adnabyddus fel Môr Tiberias wedyn.

Aeth Seimon Pedr o Capernaum, ar lan y llyn, i gadw'r Wyl yn Jerwsalem dros y Pasg. Gwelodd yr Iesu yn cael ei gondemnio a'i groeshoelio. O Gesarea y teithiodd Pontius hefyd i Jerwsalem, gyda'i osgorodd. Bu'r Apostol Paul yma lawer gwaith a bu yma unwaith mewn cadwyni yn garcharor.

Roeddwn fel 'hogyn capal' yn weddol hysbys am hanes Palesteina. Teimlais ryw ias wrth gysylltu â'r enwau cyfarwydd fel Capernaum, Magdala, Bethsaida ac yn y blaen. Clywais lawer gwaith wedyn am feirdd yn sôn am Fôr Galilea a'i felyn draeth, heb sylweddoli mae traeth du ydoedd a'r garreg leol yn 'basalt'. Dyna siom i mi!

Wrth ddringo'r rhiw serth i gyrraedd Nasareth gwelais o'm blaen Ddyffryn Esdraelon. Y tu hwnt yr oedd brynau isel yn arwain fy llygaid i gyfeiriad Ebal a Gerisim yng ngwlad Samaria. Cofiais am yr Iesu yn siarad â'r Wraig o Samaria wrth Ffynnon Jacob.

Roedd y ffordd i Gana Galilea yn dolennu o'm blaen i'r dwyrain o dan y copaon a elwid yn Gyrn Hatton. Edrychais i lawr yn fy ôl ar lannau môr Galilea gyda'r tiroedd ffrwythlon gwastad yn ymestyn o Fagdala i Capernaum a Bethsaida. Roedd brynau y Decapolis yn cyrraedd i lawr at fin y dŵr, ac yn teyrnasu dros y cwbl yr oedd Mynydd Hermon yn ei wisg wen o eira.

O Nasareth teithiais ymlaen drwy Gana a chofiais i'r Iesu droi y dŵr yn win yn y briodas yno. Ymlaen yr aethom ar ein ffordd i Acre a Môr y Canoldir, gan ddilyn y traeth i'r man pellaf, sef at Fynydd Carmel. Yma y brwydrodd Elias â phroffwydi Baal a'u trechu.

Ar y daith rhyfeddais wrth weld gynnu mawrion wedi eu gosod ar hyd y glannau. Roeddynt wedi eu gosod gan fyddin y Twrciaid i amddiffyn yr ardal rhag ymosodiadau o'r môr, ond roedd byddin y Twrciaid wedi hen ffoi erbyn hyn ar ôl methu, drwy gymorth yr Almaenwyr, i gipio camlas Suez. Buasai meddiannu y gamlas yn rhwystro trafniadaeth holl longau ar eu ffordd i Asia neu Ewrop.

Wrth nesáu at y gynnu mawrion hyn sylweddolais nad gynnu oeddynt ond rhes o olwynion ar echelau. Gosodwyd

peipen fawr ar bob echel gan dwyllo yr awyrlu a'r llynges - gynnu mawrion yn wir!

Mulod oedd yn cludo ein gynnu bychain a'n nwyddau ar ein cyfer gan ein bod yn dal i symud ymlaen a dilyn llinell y brwydro, y 'front line'. Cawsom le cysgodol i orffwysu am ychydig rhag haul tanbaid canol dydd. Roedd gennym ryw ddwsin o'r mulod yma ond yn sydyn

dechreuodd un ohonynt neidio a strancio. Daeth ei lwyth yn rhydd gan daflu y gynnu ar y llawr gan wneud sŵn mawr fel llestri yn deilchion.

Sylweddolwyd fy mod yn diodde o'r malaria, wedi cael fy mhigo gan bryfaid gwenwynig. Cefais fy hun mewn cartref i'm gwella, yn Alexandria yn yr Aifft. 'Convalescent Home' ydoedd wedi ei sefydlu fel nodded i filwyr Pabyddol, a minnau yn Wesle bach o Dregarth yn cael gofal ardderchog yno. Llwenydd oedd clywed meddyg yn dweud y cawn godi a mynd allan am dro bychan o gwmpas y cartref. Manteisiais hefyd drannoeth ar y cyfle cyntaf ers misoedd i gael diwrnod golchi! Tynnais bob cerpyn oddi amdanaf a'i olchi gorau y gallwn. Neidiais wedyn i'r gwely yn noeth lymun gan godi ymhen rhyw awr a hanner a chanfod fy nillad glân yn sych grimp. Diolchais fy mod mewn gwlad boeth a theimlais yn llawer mwy cyfforddus a hapus mewn dillad glân.

Deuthum ar draws copi o'r Gwyllydydd (ein papur ni fel Wesleaid) ar fwrdd wrth gyntedd y cartref. Synnais yn fawr ei weld yno. Darllenais goffâd Maggie Brynhyfryd, Tregarth, oedd yn gyfeillgar â'm teulu ym Mryn Poeth bell. Tristwch mawr oedd ei cholli. Treuliais orig ddfyfr iawn yn mwynhau darllen y Gwyllydydd o gwr i gwr. Fe'i gadewais yn yr un man ar y bwrdd rhag y digwydd i ryw Gymro arall ddod i mewn a'i ddarllen.

Ar ôl gwella o'r malaria, a'r rhyfel bron ar ben, cefais fy anfon yn ôl i Loegr a chael fy rhyddhau o'r fyddin – cael 'demob'. Cefais gyfnodau byr ar hyd fy oes yn dioddef o effeithiau y malaria hwnnw, a chael dyddiau o oeri a phoethi bob yn ail.

Llwyddais i barhau â'm gyrfa fel siopwr gan gael swydd yng Nghilfynydd a lletya yn Nhrefforest. Roeddwn yn dal i fod â'm bryd ar fynd i'r weinidogaeth a threuliais gyfnod yn cymryd lle y Parch Emyr Jones ym Mhenygraig yng Nghwm Rhondda. Roedd llawer o Wesleaid o Ogledd Cymru yn yr eglwysi dan fy ngofal a theimlais yn gartrefol iawn.

Bûm wedyn yn Nhir-y-dail, Rhydaman, mewn ysgol i baratoi myfyrwyr i ddarpar weinidogion. Cofiwch fy mod wedi gadael yr ysgol heb unrhyw gymwysterau i sicrhau lle mewn coleg hyfforddi. Cefais yn ddiweddarach fod yn was cyflog (lay agent) ym Mhen Llŷn gan letya â theulu Meillionydd yn y Rhiw.

I'r New Forest Mission oedd fy ngalwad nesaf ac wedyn i Gylchdaith Llandeilo cyn llwyddo i dderbyn gwahoddiad fel ymgeisydd am y weinidogaeth i Goleg Didsbury ym Manceinion.

**WILLIAM H. HUGHES**

